**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Rhagfyr 2013

Dear Lesley,

**Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd ynghylch y Rheoliadau uchod.

Gwerthfawrogaf fod sesiynau briffio technegol yn cael eu cynnig yn ddidwyll a gyda'r bwriad gorau. Serch hynny, ni ddylai sesiynau preifat o'r fath gael eu hystyried fel y dull arferol i egluro darnau anodd o ddeddfwriaeth. Fel y dywedais yn y Siambr, mae hynny'n tanseilio'r amcan a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses o wneud deddfau yn llawer mwy hygyrch.

Ar ben hynny, mae'n fwy tryloyw ac atebol yn ddemocrataidd i Weinidogion esbonio eu deddfwriaeth yn ystod trafodion y Cynulliad. Felly, efallai y bydd angen inni ystyried a ddylid ceisio barn Gweinidogion yn ystod ymarferion ymgynghori ar offerynnau statudol mwy cymhleth. Ni ddylai dull o'r fath beryglu rôl graffu ffurfiol y Pwyllgor mewn perthynas ag offerynnau statudol unwaith y byddant wedi cael eu gosod gerbron y Cynulliad, ond, er hynny, gallai fod yn gyfle i ystyried a datrys, yn gyhoeddus, rai o'r materion a allai beri pryder.

Ni all ein gwaith fod yn amodol ar gael sesiwn briffio technegol gan y Llywodraeth. Ein cynghorwyr cyfreithiol sy'n annibynnol ar y Llywodraeth sy'n rhoi ein cyngor technegol a chyfreithiol yn bennaf. Mae dryswch ar y pwynt

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8008
E-bost / Email: Gareth.williams@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

hwn yn peryglu tanseilio swyddogaethau deddfwriaethol y Cynulliad, rhywbeth yr wyf yn sicr nad ydych chi am ei wneud.

Mae eich llythyr, mae'n ymddangos, yn awgrymu y gall beirniadaeth fod yn ddilys dim ond os caiff ei chyfathrebu o flaen llaw ar ôl inni awgrymu i chi ffyrdd o wella'r rheoliadau perthnasol. Tra byddwn bob tro yn ceisio cynorthwyo'r weithrediaeth i gyflawni'i dyletswyddau craidd pan fo'n bosibl, nid ein cyfrifoldeb ni yw gwneud hynny. Rydym yn gwneud sylw ar reoliadau ar ôl iddynt gael eu cyflwyno ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Gan droi at y Rheoliadau eu hunain, maent yn eithriadol o gymhleth, fel yr ydych yn ei gydnabod. Credwn yn gryf y gallent fod wedi cael eu gwneud yn symlach ac yn haws i'w deall.

Mae paragraff 55 o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor diofyn, sy'n ymwneud â'r ymdriniaeth o daliadau gofal plant, yn enghraifft o pam y credwn fod hyn yn wir. Er mwyn deall ei ddiben, rhaid i'r darllenydd edrych yn gyntaf ar ddarpariaeth ar wahân, sef paragraff 54(1)(c). Mae paragraff 55 ei hun yn ymestyn dros naw tudalen o'r Cynllun ac wedi'i rannu'n 18 o is-baragraffau. Mae nifer ohonynt wedi'u rhannu'n is-is-baragraffau, gyda rhai (ee 55(8)(a) ac (e))wedi'u rhannu'n is-is-is baragraffau. Yn ogystal, mae'r darpariaethau'n dibynnu ar 19 darn arall o ddeddfwriaeth i gael eu hystyr llawn. Mae'r holl ddrafftio cymhleth hwn yn ymdrin ag un mater: pa fath o daliadau gofal plant a gaiff eu tynnu o incwm ymgeisydd, fel y'u cyfrifir at ddibenion y Rheoliadau, er mwyn canfod a ydynt yn gymwys ar gyfer gostyngiad a maint y gostyngiad hwnnw.

Mae dau bwynt arall yn ymwneud â chymhlethdod yr hoffwn dynnu eich sylw atynt.

Yn gyntaf, cyfeiria eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd at waith Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin. Byddwch yn ymwybodol nad yw'r Pwyllgor hwn, wrth adrodd ar offerynnau statudol, yn asesu rhagoriaethau unrhyw offeryn na'r polisi sylfaenol. Yn hytrach, caiff y swyddogaeth hon ei chyflawni gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi, olynydd y Pwyllgor Rhagoriaethau Offerynnau Statudol. Wrth wneud sylw ar y Rheoliadau treth gyngor tebyg yn Lloegr yn 2012, dywedodd y Pwyllgor hwnnw:

> "We would comment that these instruments demonstrate the complexity of the new arrangements, which can be expected to prove challenging as much for those required to implement them as for claimants who will need to understand the new system."

Nid yw'n wir, fel yr ydych yn ei honni, nad yw cymhlethdod wedi'i nodi fel pryder yn y Rheoliadau ar gyfer Lloegr.

Yn ail, yn ystod y ddadl yn y Siambr dywedasoch fod y Rheoliadau a oedd yn destun gwaith craffu yn 119 tudalen o hyd, a phwysleisioch eu bod yn llawer byrrach na Rheoliadau 2012. O'u cyfuno, roedd y ddau offeryn dwyieithog a ystyriwyd gennym dros 500 tudalen o hyd – fel y rhai cyfatebol yn 2012. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle cynharaf i'w gwneud yn glir pa ddogfennau yr oeddech yn cyfeirio atynt ac ai hwy oedd y rhai y craffodd y Pwyllgor arnynt.

Rwyf yn croesawu'n fawr yr ymagwedd gymodlon a fabwysiadwyd gennych yn eich sylwadau cloi ac rwyf yn gobeithio y bydd y llythyr hwn yn cael ei dderbyn yn yr un modd. Croesewir hefyd eich ymrwymiad i adolygu'r ddeddfwriaeth ac i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gydag Aelodau.

Yours sincerely

**David Melding AM**
**Chair**